

Adeiledd a bondio

Rhowch gynnig ar ddatrys yr ymadroddion yn y tabl a ffurfio'r diffiniadau cywir ar gyfer y termau allweddol a restrir yng ngholofn A (gellir defnyddio ymadroddion unwaith, fwy nag unwaith, neu ddim o gwbl). Wedyn ysgrifennwch y diffiniadau'n llawn, ar y llinellau o dan y tabl.

A	B	C	D	E
Mae bond ïonig	yw'r grymoedd atynnu	un	pâr o	metel ac anfetel.
Bond cofalent		a gwrthyrru	math o	fondiau cemegol.
Mae bond metelig	yn sylwedd pur wedi ei wneud o	rhwng electronau dadleoledig a'r	sy'n ffurfio rhwng	mewn dellten reolaidd.
Mae elfen	yn fath o fond sy'n cael ei ffurfio gan atomau	rhwng ïonau â gwefr ddirgroes mewn dellten reolaidd	cymharol wan rhwng	mewn cymhareb sefydlog.
Mae cyfansoddyn	yn rym atyniad electrostatig	posibl o elfen;	ïonau positif	atom yn unig.
Atom	yw dau atom	ddwy neu ragor o elfennau gwahanol	wedi eu cysylltu gan	electronau.
Moleciwl	yw'r gronyn lleiaf	neu ragor	y mae bondiau cemegol yn cysylltu eu hatomau	brotonau, niwtronau ac electronau.
Grymoedd rhyngfoleciwlaidd		sy'n rhannu o leiaf un	mae atomau wedi eu gwneud o	moleciwlau.

Mae bond ïonig _____

Mae bond cofalent _____

Mae bond metelig _____

Mae elfen _____

Mae cyfansoddyn _____

Mae atom _____

Mae moleciwl _____

Mae grymoedd rhyngfoleciwlaidd _____

Cwblhau'r cysylltiad

Dewiswch y llythyren o'r tabl isod sy'n cynnwys y rhes gywir o eiriau cyswllt i gwblhau'r brawddegau hyn.

Pan fydd metel ac anfetel yn adweithio, bydd y metel yn colli un neu fwy o

electronau ac _____, mae'n troi'n ïon â gwefr bositif.

_____, mae'r anfetel yn ennill un neu fwy o electronau i fod yn ïon â

gwefr negatif. Mae bond ïonig yn cael ei ffurfio _____ yr ïonau sydd â

gwefr ddirgroes yn cael eu dal at ei gilydd gan atyniad electrostatig.

A	o'r herwydd	Felly	er gwaethaf
B	gan fod	Er gwaethaf hyn	yna
C	o ganlyniad	Ar y llaw arall	gan fod
D	i'r gwrthwyneb	O'r herwydd	yn unol â